

LOCWS
INTERNATIONAL

Tel: 01792 468979

ARTISTS

ARTISTIAID

TANYA AXFORD

MEGAN BROADMEADOW

NEVILLE GABIE

PAUL GRANJON

NEEME KÜLM

MARKO MÄETAMM

AISLING O'BEIRN

CALUM STIRLING

LOCWS

INFORMATION HUB

Maps and information available
from the Locws Hub at the National
Waterfront Museum, Swansea

Free to enter, open to all

Open everyday from 10am - 5pm

CANOLFAN

WYBODAETH LOCWS

Mapiau a gwybodaeth ar gael o
Ganolfan Locws yn Amgueddfa
Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Mynediad am ddim, yn agored i bawb

Yn agored bob dydd rhwng 10am a 5pm

WWW.ARTACROSSTHECITY.COM

**ART ACROSS
THE CITY**

SWANSEA 2009
18 APRIL - 10 MAY

**CELF AR DRAWS
Y DDINAS**

ABERTAWE 2009
18 EBRILL - 10 MAI

LOCWS
INTERNATIONAL

TANYA AXFORD THERE IS NOTHING LEFT OF THE SEA BUT ITS SOUND

Unit 1a, National Waterfront Museum Square
Uned 1a, Sgwâr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

MEGAN BROADMEADOW SHIP-SHAPE

Museum Pontoon, Swansea Marina
Pontŵn yr amgueddfa, Marina Abertawe

NEVILLE GABIE LAND AND SEA

Quadrant Shopping Centre / Bus Station
Nghanolfan Siopa'r Cwadrant / Orsaf Fysus

PAUL GRANJON SAIL BRIDGE MUSIC ACTION

Performance at Sail Bridge on Saturday 18 April at 6.15pm
Documentation of event at Locws Hub, National Waterfront Museum
Perfformiad ar y Bont Hwyliau nos Sadwrn 18 Ebrill am 6.15pm
Dogfennau am y digwyddiad yng Nghanolfan Locws, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

NEEME KÜLM DYLAN THOMAS

Dylan Thomas Square, Swansea Marina
Sgwâr Dylan Thomas, Marina Abertawe

MARKO MÄETAMM GRAVEGROUND


National Waterfront Museum Green, Oystermouth Road
Lawnt yr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Heol Oystermouth

AISLING O'BEIRN SOME SWANSEA SITES

Technium Square, SA1 | Swansea Amphitheatre | The LC Car Park,
Oystermouth Road | Museum Green, Victoria Road | Civic Centre Seafront
Sgwâr Technium, Heol y Brenin | Lawnt yr amffitheatr | Arglawdd rheilffordd
Lawnt yr Amgueddfa, Heol Victoria | Glan môr y Ganolfan Ddinesig

CALUM STIRLING TILT-SHIFT

National Waterfront Museum Garden
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau



EVENTS

SATURDAY 18 APRIL

Performance by Paul Granjon with Dynion Dance
6.15pm, Sail Bridge, River Tawe

WEDNESDAY 22 APRIL

Launch Reception 7pm, National Waterfront Museum

SATURDAY 25 APRIL

Guided Walk 1pm, National Waterfront Museum

MONDAY 27 APRIL

Guided Walk 2pm, National Waterfront Museum

WEDNESDAY 29 APRIL

Symposium: Locws in Context 1pm, Dynevor Centre for Art & Design, De La Beche Street, free and open to all

SATURDAY 2 MAY

Guided Walk 1pm, National Waterfront Museum

Guided Cycle Tour 11am, Technium Square, SA1 Waterfront Development

WEDNESDAY 6 MAY

Guided Walk 2pm, National Waterfront Museum

SATURDAY 9 MAY

Guided Walk 1pm, National Waterfront Museum

SUNDAY 10 MAY

Guided Walk 2pm, National Waterfront Museum

Locws Closes 5pm

See www.artacrossthecity.com for details and updates

DIGWYDDIADAU

DYDD SADWRN 18 EBRILL

Perfformiad gan Paul Granjon a Dynion dawns

6.15pm, fordwya bontio, Tawe afon

Seremoni lansio 7pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD MERCHER 22 EBRILL

Teithiau tywys 1pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD SADWRN 25 EBRILL

Teithiau tywys 2pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD LLUN 27 EBRILL

Symposiwn: Locws yn ei Gyd-destun 1pm, Canolfan Celf a Dylunio Dinefwr, Stryd De la Beche, am ddim, yn agored i bawb

DYDD MERCHER 29 EBRILL

Teithiau tywys 1pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD SADWRN 2 MAI

Teithiau beicio llywbr 11am, Sgwâr Technium SA1 Glannau

Teithiau tywys 2pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD MERCHER 6 MAI

Teithiau tywys 1pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD SADWRN 9 MAI

Teithiau tywys 2pm, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

DYDD SUL 10 MAI

Locws yn cau 5pm

Gweler www.artacrossthecity.com am fanylion a diweddariadau

WELCOME

Welcome to Locws International: Art Across The City 2009, an exhibition of new temporary artworks by a selection of dynamic international artists in public and accessible sites across the city of Swansea.

Locws International invites artists to create new artworks that are a direct response to the people, culture, heritage and landscape of the city, and for this event all of the artists involved have spent time in the city, investigating its many facets and developing their ideas based on their discoveries. Locws International therefore not only presents a current snapshot of contemporary art practice but also presents a unique reflection of the spirit of this city at this time.

Our thanks go to the artists who have brought their creative vision to the city and to our supporters who have made this event possible. This year has seen the development of a number of successful partnerships with organisations and individuals across Swansea and we would like to thank all of the people involved.

David Hastie and Grace Davies,
Locws International 2009

CROESO

Croeso i Locws Rhyngwladol: Celf Ar Draws y Ddinas 2009, arddangosfa o weithiau celf newydd dros dro gan ddetholiad o artistiaid dynamig rhyngwladol mewn safleoedd cyhoeddus a hwylus ar draws dinas Abertawe.

Mae Locws Rhyngwladol yn gwahodd artistiaid i greu gweithiau celf newydd sy'n ymateb yn uniongyrchol i bobl, diwylliant, etifeddiaeth a thirlun y ddinas. Mae'r artistiaid sy'n ymwneud â'r arddangosfa hon wedi treulio amser yn y ddinas yn ymchwilio i'w hagweddau niferus a datblygu eu syniadau ar sail eu canfyddiadau. Nid yn unig felly mae Locws Rhyngwladol yn cyflwyno ciplun cyfredol o arferion celf modern ond mae hefyd yn cyflwyno llun unigryw o ysbryd cyfredol y ddinas hon.

Diolch i'r artistiaid sydd wedi cyflwyno eu gweledigaeth greadigol i'r ddinas ac i'n cefnogwyr sydd wedi gwneud y digwyddiad hwn yn bosib. Eleni, rydym wedi gweld sawl partneriaeth yn datblygu ar y cyd â sefydliadau ac unigolion ar draws Abertawe a hoffem ddiolch i'r holl bobl sy'n rhan o'r partneriaethau hynny.

David Hastie a Grace Davies,
Locws Rhyngwladol 2009

TANYA AXFORD

Tanya Axford's artwork stems from her discovery of Swansea's rich maritime history and in particular the city's relationship to the dramatic and powerful impact of the sea. She sees this within elements of Swansea's regeneration and 'reinvention' and specifically with the redevelopment of the LC, the newly revamped Swansea Leisure Centre.

The LC, a multi-faceted water park, has taken the natural phenomenon of the sea that is unpredictable, wild and unmanageable, and created a compact version that is highly controllable making the 'drama' of the sea safe and entertaining.

Axford has created a video installation that plays with this relationship, giving an illusion of the sea as a storm emerges. Accompanied by a dramatic soundtrack, the waves reach a crescendo and, as the piece continues, the true landscape is revealed.

Mae gwaith Tanya Axford yn tarddu o ddatgelu hanes morol cyfoethog Abertawe a pherthynas y ddinas yn arbennig ag effaith dramatig a phwerau y môr. Mae'n gweld hyn o fewn elfennau adfywio ac 'ail-greu' Abertawe ac yn benodol gydag ailddatblygiad LC, Canolfan Hamdden newydd sbon Abertawe.

Mae LC, parc dŵr amlochrog, yn cyfleu rhyfeddod naturiol y môr sy'n annarogan, yn wyllt ac yn anhydrin, ac yn creu fersiwn gryno y gellir ei rheoli wrth wneud 'drama'r' môr yn ddiogel ac yn ddifyrrus.

Mae Axford wedi creu fideo sy'n chwarae â'r berthynas hon, gan roi darlun o'r môr wrth i storm ddechrau. Mae trac sain dramatig yn gefndir i'r fideo, ar ôl i'r tonnau gyrraedd uchafbwynt, ac wrth i'r darn barhau mae'r tirlun go iawn yn cael ei ddatgelu.

THERE IS NOTHING LEFT OF THE SEA BUT ITS SOUND

Unit 1a, National Waterfront Museum Square



Tanya Axford was born in Kent and lives and works in Newcastle upon Tyne.

Axford completed a BA Fine Art at Newcastle University and a MA Fine Art at Goldsmiths College, London and is currently represented by Workplace Gallery, Gateshead.

Ganwyd Tanya Axford yng Nghaint ac mae'n byw ac yn gweithio yn Newcastle upon Tyne.

Cwblhaodd Axford BA mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Newcastle ac MA mewn Celfyddyd Gain yng Ngholeg Goldsmiths, Llundain ac ar hyn o bryd, mae'n cael ei chynrychioli gan Oriol Workplace, Gateshead.

MEGAN BROADMEADOW

Megan Broadmeadow's inspiration for her work is derived from Swansea's maritime history and the wider nautical world, which she initially perceived to be very masculine, particularly within the history of Swansea. In her further investigations however, she discovered that the nautical tradition also holds reverence to the female form. The boat is a 'she' vessel, cradling the lives of the men who sail in her hull. In response to this, Broadmeadow has created a floating sculpture of a high-heeled shoe, which has masts and sails, and presents the ultimate female ship.

The high-heeled shoe represents the femininity issues surrounding the nautical world and the shopping culture omnipresent in every city. The work also links to the Swansea cockle women, those women who only wore shoes to enter the market, their simple life almost a million miles away from the highly groomed lifestyles of today.

Ysbrydoliaeth gwaith Megan Broadmeadow yw hanes morol Abertawe a'r byd morol ehangach, yr oedd yn y lle cyntaf yn ei weld fel rhywbeth gwrywaidd iawn, yn enwedig o ran hanes Abertawe. Wrth iddi archwilio ymhellach, fodd bynnag, darganfuwyd bod y traddodiad morol yn talu teyrnged i'r ffurf fenywaidd. Mae llong yn fenywaidd ac yn diogelu bywydau'r holl ddynion sy'n hwylio arni. Er mwyn ymateb i hyn, mae Broadmeadow wedi creu cerflun arnofiol o esgid â sawdl uchel, y mae ganddi hwylbren a hwyl, ac yn cyflwyno'r llong fenywaidd ddefnyddol.

Mae'r esgid â sawdl uchel yn cynrychioli materion benyweidd-dra sy'n ymwneud â'r byd morol a'r diwylliant siopa sy'n hollbresennol ym mhob dinas. Mae'r gwaith hefyd yn cysylltu menywod cocos Abertawe, y menywod a oedd ond yn gwisgo'u hesgidiau i fynd i'r farchnad. Roedd eu bywydau'n hollol wahanol i fywydau breintiedig heddiw.

SHIP-SHAPE

Museum Pontoon, Swansea Marina



Megan Broadmeadow was born in Manchester and raised in north Wales, where she currently lives and works.

Broadmeadow studied sculpture at the Slade School of Art, and graduated in 2002. Since then she has exhibited and performed in Wales and England. She also works as an Associate Director for Cynefin Theatre Company.

Ganwyd Megan Broadmeadow ym Manceinion a chafodd ei magu yng ngogledd Cymru lle mae'n byw ac yn gweithio ar hyn o bryd.

Astudiodd Broadmeadow, Gerflunwaith yn Ysgol Gelf Slade, a graddiodd yn 2002. Ers hynny mae wedi arddangos a pherfformio yng Nghymru a Lloegr. Mae hi hefyd yn gweithio fel cyfarwyddwr ar gyfer Cwmni Theatr Cynefin.

NEVILLE GABIE

Neville Gabie has created a project that literally illustrates the face of Swansea: its landscape, buildings and evolving skyline.

Travelling on various bus routes around the city, Gabie produced a series of drawings onto the windows of the bus in the brief moments it stopped to pick up passengers. By filming this process, it became a way of mapping and holding onto the glimpses one sees when passing through the city.

Alongside the bus journey, Gabie presents two parallel films, a train journey across Siberia and a sea passage to Antarctica. By presenting the three journeys together, in the Quadrant Shopping Centre on the approach to the bus station, he creates a metaphorical starting point for the journey of the imagination, as well as a real launch pad for many Swansea adventures.

Mae Neville Gabie wedi creu prosiect sydd yn darlunio wyneb Abertawe yn llythrennol: ei thirwedd, ei hadeiladau a'i nenlinell sy'n newid o hyd.

Drwy deithio ar amrywiaeth o lwybrau bysus o amgylch y ddinas, mae Gabie wedi cynhyrchu cyfres o luniadau ar ffenestri'r bws yn yr eiliadau prin pan arhosodd i godi teithwyr. Drwy ffilmio'r broses hon, daeth yn ffordd o fapio a'r gipolwg y mae rhywun yn gweld wrth deithio trwy'r ddinas.

Ynghyd â'r daith ar y bws, mae Gabie yn cyflwyno dwy ffilm baralel, taith drên ar draws Siberia a thaith ar y môr i Antarctica. Trwy gyflwyno'r tair taith gyda'i gilydd, yng Nghanolfan Siopa'r Cwadrant ger yr orsaf fysis, mae'n creu man cychwyn trosiadol ar gyfer taith y dychymyg, yn ogystal â lle go iawn i ddechrau ar sawl antur yn Abertawe.

LAND AND SEA

Quadrant Shopping Centre / Bus Station



Neville Gabie was born in Johannesburg, South Africa and now lives and works in Stroud, UK.

He completed his MA in sculpture at the Royal College of Art in 1988. He has undertaken a number of international residences, and has curated and organised off-site projects in the UK. His work has been shown extensively internationally and nationally.

Ganwyd Neville Gabie yn Johannesburg, De Affrica ac erbyn hyn mae'n byw ac yn gweithio yn Stroud, y DU.

Cwblhaodd MA mewn cerflunwaith yn y Coleg Celf Brenhinol ym 1988. Mae wedi cael sawl cyfnod preswyl rhyngwladol, ac mae wedi curadu a threfnu prosiectau oddi ar y safle yn y DU. Mae ei waith wedi cael ei arddangos yn helaeth yn rhyngwladol ac yn genedlaethol.

PAUL GRANJON

Paul Granjon has chosen to work with Swansea's Sail Bridge, a landmark structure that connects the east and west sides of the city. Granjon has collaborated with a local choreographer, Douglas Comley, and a 20-strong company of dancers to create a percussive choreography for the bridge, the dancer's motions and rhythms 'playing' the bridge as if it were a percussive musical instrument.

The various surfaces of the bridge are activated by the dancers equipped with modified rubber mallets and wearing shoes fitted with steel plates. Their choreographed motions explore the acoustic quality of the largely metallic structure, creating a spatial sound-scape that reveals the musicality of the bridge.

The performance is the opening event for Locws International and filmed documentation can be seen within the Locws Information Hub at the National Waterfront Museum.

Mae Paul Granjon wedi dewis gweithio gyda Hwylbont Abertawe, tirnod sy'n cysylltu dwyrain a gorllewin y ddinas. Mae Granjon wedi gweithio ar y cyd â choreograffydd lleol, Douglas Comley, a chwmi o 20 dawnsiwr i greu coreograffiaeth ergydol ar gyfer y bont, symudiadau'r dawnswyr a rhythmau'n 'chwarae'r' bont fel petai'n offeryn cerddorol ergydol.

Mae arwynebau amrywiol y bont yn cael eu hysgogi gan y dawnswyr â gyrdd rwber addasedig ac yn gwisgo esgidiau â phlatiau dur. Mae eu symudiadau a choreograffwyd yn archwilio ansawdd acwstig yr adeiledd metel wrth greu sŵn gofodol sy'n datgelu naws gerddorol y bont.

Y perfformiad hwn yw digwyddiad agoriadol Locws Rhyngwladol a gweler dogfennaeth a ffilmwyd yng nghanolfan wybodaeth Locws Rhyngwladol ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

SAIL BRIDGE MUSIC ACTION

Sail Bridge, River Tawe / National Waterfront Museum, Oystermouth Road



Paul Granjon was born in Lyon, France and lives and works in Cardiff, Wales.

He studied at École des Beaux-Arts de Marseille, France and has exhibited and performed internationally and nationally ever since. In 2005 he was chosen to represent Wales at the Venice Biennale of Art.

Ganwyd Paul Granjon yn Lyon, Ffrainc, ac mae'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd, Cymru.

Astudiodd yn École des Beaux-Arts de Marseille, Ffrainc, ac mae wedi arddangos a pherfformio'n rhyngwladol ac yn genedlaethol ers hynny. Yn 2005, cafodd ei ddewis i gynrychioli Cymru yn Arddangosfa Gelf Fenis.

NEEME KÜLM

Neeme Külm aims to create a shift in perception of the normal urban environment; his key motivation in his artistic acts is aimed towards the viewers' reactions, provoking a heightened awareness of what has become too familiar to even notice. In the case of Swansea and its inhabitants, the image and presence of Swansea's much-loved poet Dylan Thomas and his cultural importance in the city makes such a case. Külm noticed that throughout the city there are many references to Dylan Thomas, including the bronze statue in the aptly named Dylan Thomas Square and wondered how Swansea would be affected if this were to disappear.

His artwork examines the nature of Swansea's affection for the poet. In doing so his intervention with Dylan Thomas brings a shift from the ordinary, a moment of surprise and uncertainty. It considers the significance of cultural icons and the impact they might have, if any, upon a city. How would Swansea differ without Dylan Thomas?

Mae Neeme Külm yn ceisio creu newid canfyddiadau am yr amgylchedd dinesig arferol; anelir ei brif gymhelliant yn ei waith tuag at ymateb y gwylwyr, gan ysgogi ymwybyddiaeth uwch o'r hyn sy'n rhy gyfarwydd i hyd yn oed sylwi arno. Yn achos Abertawe a'i thrigolion, mae delwedd a phresenoldeb yr hoff fardd, Dylan Thomas, a'i bwysigrwydd diwylliannol yn y ddinas yn gwneud achos o'r fath. Sylwodd Külm bod sawl cyfeiriad at Dylan Thomas ledled y ddinas, gan gynnwys y cerflun efydd yn Sgwâr Dylan Thomas ac mae'n myfyrio ar sut y byddai Abertawe'n cael ei heffeithio os oedd y cerflun yn diflannu.

Mae ei waith celf yn archwilio anwyldeb Abertawe tuag at y bardd. Wrth wneud hyn, mae ei ymyrraeth â Dylan Thomas yn symud o'r cyffredin, eiliad o syndod ac ansicrwydd. Mae'n ystyried arwyddocâd eiconau diwylliannol a'r effaith efallai a gânt, os o gwbl, ar ddinas. Sut byddai Abertawe yn wahanol heb Dylan Thomas?

DYLAN THOMAS

Dylan Thomas Square, Swansea Marina



Neeme Külm was born in Võru, Estonia and currently lives and works in Tallinn, Estonia.

Külm studied sculpture at the Estonian Academy of Arts, Tallinn and has exhibited extensively in Tallinn and Europe.

Ganwyd Neeme Külm yn Võru, Estonia ac ar hyn o bryd mae'n byw ac yn gweithio yn Nhallinn, Estonia.

Astudiodd Külm Gerflunwaith yn Academi Celfyddydau Estonia, Tallinn ac mae wedi arddangos ei waith yn helaeth yn Nhallinn ac yn Ewrop.

MARKO MÄETAMM

Marko Mäetamm has created a chaotic playground that sits beside Swansea's brand new, well-organised leisure centre, The LC. The inspiration from Mäetamm's project stems from his perception of the city undergoing a re-organisation and bringing new attractions and activities for its inhabitants. He also was also drawn to the lively nightlife of the city, and the vibrant and chaotic nature of a night out in Swansea's drinking quarter.

This artwork combines the colourful, chaotic character of Swansea with its reinvention as a city of leisure. The LC provides a fitting backdrop to his playground of nightmares. Caged behind a steel fence, the playground appears sinister and apocalyptic.

Mae Marko Mäetamm wedi creu ardal chwarae anhrefnus ger canolfan hamdden newydd sbon a threfnus Abertawe, LC. Mae'r ysbrydoliaeth ar gyfer prosiect Mäetamm yn deillio o'i ganfyddiad o'r ddinas sy'n cael ei had-drefnu ac yn cyflwyno atyniadau newydd a gweithgareddau ar gyfer ei thrigolion. Cafodd ei ddenu hefyd i fywyd nos bywiog y ddinas, a natur anhrefnus a llawn bywyd noson yn ardal yfed Abertawe.

Mae'r gwaith celf yn cyfuno cymeriad lliwgar, anhrefnus Abertawe a'i ailgreu yn ddinas hamdden. Mae LC yn darparu cefndir addas i'r ardal chwarae hon sy'n llawn hunllefau. Mae'r ardal chwarae yn ymddangos yn sinistr ac yn apocalyptaidd y tu ôl i ffens dur.

GRAVEGROUND

National Waterfront Museum Green, Oystermouth Road



Marko Mäetamm was born in Viljandi, Estonia and lives and works in Tallinn, Estonia.

Mäetamm studied at the Estonian Academy of Arts, and has exhibited extensively in Estonia and internationally. He was chosen to represent Estonia in the Venice Biennale in 2003 and 2007.

Ganwyd Marko Mäetamm yn Viljandi, Estonia ac mae'n byw ac yn gweithio yn Nhallinn, Estonia.

Astudiodd Mäetamm yn Academi Celfyddydau Estonia, ac mae wedi arddangos ei waith yn helaeth yn Estonia ac yn rhyngwladol. Cafodd ei ddewis i gynrychioli Estonia yn Arddangosfa Gelf Fenis yn 2003 ac yn 2007.

AISLING O'BEIRN

Aisling O'Beirn has created a collection of drawings depicting both familiar and unfamiliar features and elements from around Swansea. Themed on ships, bridges, street furniture, urban weeds and assorted landmarks, O'Beirn has collated the drawings into 5 multi-imaged graphic posters.

The posters are exhibited using pre-existing distribution systems, incrementally published as collectable items in the South Wales Evening Post over the duration of the exhibition and publically displayed on billboards at different locations across the maritime district of the city.

O'Beirn's project sees the circulation of vernacular information about Swansea bringing together the familiar and unnoticed aspects of the city.


Mae Aisling O'Beirn wedi creu casgliad o luniadau sy'n portreadu nodweddion ac elfennau cyfarwydd ac anghyfarwydd o amgylch Abertawe. Mae'r darluniau yn seiliedig ar longau, pontydd, dodrefn y stryd, chwyn trefol a thirnodau gwahanol ac mae O'Beirn wedi casglu'r lluniau ynghyd i greu 5 poster graffig aml-ddelwedd.

Mae'r posteri'n cael eu harddangos gan ddefnyddio systemau dosbarthu sy'n bodoli eisoes, wedi'u cyhoeddi'n gynyddol fel eitemau casgladwy yn y South Wales Evening Post dros gyfnod yr arddangosfa ac wedi'u harddangos yn gyhoeddus ar hysbysfyrdau mewn lleoliadau gwahanol ar draws ardal forol y ddinas.

Mae prosiect O'Beirn yn ymwneud â dosbarthu gwybodaeth frodorol am Abertawe gan uno agweddau cyfarwydd a disylw'r ddinas.

SOME SWANSEA SITES

Technium Square, SA1 | Swansea Amphitheatre | The LC Car Park, Oystermouth Road
Museum Green, Victoria Road | Civic Centre Seafront



Aisling O'Beirn was born in Galway, Ireland and is now based in Belfast.

O'Beirn studied sculpture at The University of Ulster in 1990 and has exhibited both nationally and internationally. She was awarded a PhD by the University of Ulster in 2005. O'Beirn is represented by The Third Space Gallery, Belfast.

Ganwyd Aisling O'Beirn yn Galway, Iwerddon ac erbyn hyn mae'n gweithio ym Melfast.

Astudiodd O'Beirn gerflunwaith ym Mhrifysgol Ulster ym 1990 ac mae hi wedi arddangos ei gwaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Dyfarnwyd PhD iddi gan Brifysgol Ulster yn 2005. Cynrychiolir O'Beirn gan The Third Space Gallery, Belfast.

CALUM STIRLING

Working closely with the Amgueddfa Cymru–National Museum Wales’ ceramic collection, Calum Stirling has investigated Swansea’s famous Cambrian Pottery works and created a major installation based on pieces from the collection that were manufactured in Swansea. The blue painted scenes depicted on the plates, jugs and cups are recognisable landscapes that combine Chinese references with familiar British landscapes.

In his large-scale sculptural installation, Stirling has reconstructed these ‘imaginary’ landscapes, combining the fantasy depictions from the 1800s with familiar landmarks that can be found across Swansea today. The work is constructed like a theatrical set, through which viewers can navigate the scenery; immersing themselves in a landscape that could have come from China, Swansea or the depths of the imagination.

This project has been organised as part of Celf Cymru Gyfan–ArtShare Wales, Amgueddfa Cymru–National Museum Wales’ visual arts partnership scheme, generously funded by the Esmée Fairbairn Foundation.

Wrth weithio’n agos â chasgliad cerameg Amgueddfa Genedlaethol Cymru, mae Calum Stirling wedi archwilio crochenwaith enwog Corchendy Cambrian Abertawe ac mae wedi creu darn mawr sy’n seiliedig ar weithiau o’r casgliad a gynhyrchwyd yn Abertawe. Mae’r golygfeydd sydd wedi’u darlunio mewn glas ar y platiau, y jygiau a’r cwpanau yn dirluniau cyfarwydd sy’n cyfuno cyfeiriadau Tsieineaidd â thirluniau cyfarwydd Prydain.

Yn y gosodiad cerfluniol mawr hwn, mae Stirling wedi ail-adeiladu’r tirluniau ‘dychmygol’ hyn gan gyfuno darluniau ffantasi’r 1800au â thirluniau cyfarwydd y gellir dod o hyd iddynt ledled Abertawe heddiw. Mae’r gwaith yn cael ei adeiladu fel set theatrig y gall gwylwyr lywio’r golygfeydd; gan ymgolli yn y tirlun a allai fod wedi dod o Tsieina, Abertawe neu yn nwf n y dychymyg.

Mae’r prosiect hwn wedi’i drefnu fel rhan o gynllun partneriaeth celf weledol Celf Cymru Gyfan–ArtShare Wales, Amgueddfa Cymru–Amgueddfa Genedlaethol Cymru, wedi’i ariannu’n hael gan Sefydliad Esmée Fairbairn.

TILT-SHIFT

National Waterfront Museum Garden, Oystermouth Road



Image: Cambrian Pottery, Swansea, jug painted with a view of the Mumbles Lighthouse, about 1805 (detail), © National Museum Wales.

Delwedd: Crochendy Cambrian, Abertawe, jwg wedi’i beintio â golygfa o Oleudy’r Mwmbwls, tua 1805 (manyllion), © Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Calum Stirling was born in Edinburgh and lives and works in Glasgow, Scotland. He studied sculpture at Duncan of Jordanstone College of Art in Dundee, Scotland (1983-87).

Stirling has exhibited extensively both nationally and internationally and has undertaken a number of major public art commissions and artist residencies.

Ganwyd Calum Stirling yng Nghaeredin ac mae’n byw ac yn gweithio yn Glasgow, yr Alban. Astudiodd gerflunwaith yng Ngholeg Celfyddydau Duncan of Jordanstone yn Dundee, yr Alban (1983-87).

Mae Stirling wedi arddangos ei waith yn helaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac mae wedi ymwneud â sawl comisiwn celf gyhoeddus nodedig a chyfnodau preswyl.

LOCWS INTERNATIONAL

Locws International is a visual arts charity that works with artists to create temporary arts projects for public and accessible spaces across the city of Swansea. Each project is designed as a response to the character, culture, stories, heritage and people of the city.

Through its innovative programme, Locws International provides new opportunities for artists and operates within a flexible and supportive framework to enable the production of progressive and dynamic work.

LOCWS RHYNGWLADOL

Mae Locws Rhyngwladol yn gweithio gydag artistiaid rhyngwladol i greu prosiectau celfyddydau gweledol dros dro mewn ardaloedd cyhoeddus a hygyrch ar draws dinas Abertawe. Ym mhob prosiect mae lleoliad neu gyd-destun yn rhan annatod o'r gwaith. Trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o leoliadau, mae Locws Rhyngwladol yn darparu llwyfan unigryw i brofi celf gyfoes.

Trwy ei raglen arloesol, mae Locws Rhyngwladol yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd newydd i artistiaid ac yn gweithredu o fewn fframwaith hyblyg a chefnogol i alluogi cynhyrchu gwaith blaengar a dynamig.

LOCWS SCHOOLS

Locws Schools is part of Locws International's programme of 'Art Across The City' projects that are staged across the City of Swansea. It is run in conjunction with Arts in Education, City and County of Swansea and sees schools from the area take part in site-specific arts projects. These educational projects are led by a local artist and use Locws International events as inspiration. For further information see www.artacrossthecity.com

YSGOLION LOCWS

Mae Prosiectau Locws yn rhan o raglen 'Celf ar Draws y Ddinas' Locws Rhyngwladol, a gynhelir ledled dinas Abertawe. Nod Ysgolion Locws, a reolir mewn cydweithrediad â Celf mewn Addysg, Dinas a Sir Abertawe, yw annog ysgolion o'r ardal i gymryd rhan mewn prosiectau celf sy'n benodol i safle. Mae Ysgolion Locws yn dechrau gyda thaith wedi'i thywys o amgylch y gweithiau celf. Bydd yr artist yn lleol yn cyflwyno'r stori y tu ôl i rai o'r gweithiau ac yn esbonio'r syniadau a'r prosesau o greu'r gwaith. Yna, bydd myfyrwyr yn creu eu prosiectau celf eu hunain yn seiliedig ar yr hyn maen nhw wedi'i weld a'i ddysgu. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.artacrossthecity.com

SUPPORT FROM CEFNOGAETH GAN

The Arts Council of Wales
Esmée Fairbairn Foundation
City and County of Swansea
Amgueddfa Cymru–National Museum Wales
National Waterfront Museum
CCA–Estonia
Estonian Embassy in London
SA1 Waterfront Development
Welsh Assembly Government
Evening Post
The LC / Bay Leisure Ltd.
PERI
Tân Dynion Dance
First Cymru
Jiflex Ltd.
Swansea Marina
Swansea Metropolitan University
Quadrant Shopping Centre Swansea
Swansea City Centre Partnership
Swansea Museum

Printed on 100% recycled paper

